Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gogerddan**

**Ysgol Rhydypennau**
**Bow Street**
**Aberystwyth**
**SY24 5AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Gogerddan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Gogerddan Childcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Ebrill 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cadarn iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd a gyda'r staff. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae'r staff yn rheol risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn fodelau rôl rhagorol ac yn meithrin hyder a hunan-barch y plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi mesurau clir ac effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cynnal asesiadau risg clir. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r prosesau monitro'r tystysgrifau diogelwch. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang a chyffrous o adnoddau ar gael i'r plant i feithrin eu sgiliau datblygiadol, ac maent yn cynnig cyfleoedd gwych iddynt chwarae mewn amrywiaeth o ardaloedd yn yr awyr agored.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau clir ar waith sy'n unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd parhaus i ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn angerddol am sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel iawn. Maent wedi meithrin cydberthnasau cryf ledled y gymuned ac maent yn rhoi cyfleoedd i amrywiaeth o siaradwyr gwadd i ddod i ymweld â'r lleoliad yn ogystal â threfnu digwyddiadau ar gyfer y rhieni a'u plant.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Er enghraifft, gwelwyd y plant cael dewis o chwarae dan do neu yn yr awyr agored, yn dewis eu gweithgareddau ac yn symud o gwmpas yn rhydd. Mae teimladau'r plant yn sicr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Mae'r plant yn mwynhau gwneud penderfyniadau wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwneud toes chwarae, cymysgu ac ychwanegu gwahanol liwiau. Gwnaeth un plentyn droi at ei ffrind gan ddweud, *“smell this play dough, it’s the best!”* Mae rhai o'r plant yn mynegi eu hunain yn glir drwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn dewis pa fwyd fyddai'n well ganddynt.

Mae ymdeimlad hapus iawn i'w gael ymhob rhan o'r lleoliad, ac mae'n amlwg bod y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn fodlon. Gwelwyd tystiolaeth o fwynhad, sgwrsio a chwerthin drwy gydol y dydd. Mae'r plant wedi setlo ac yn meithrin cydberthnasau agos â'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u cymhelliant. Maent yn gwenu pan fyddant yn cael eu canmol gan y staff am fod yn garedig i ffrind neu am fod yn gynorthwywyr gwych adeg amser tacluso. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn gyfarwydd â'r arferion ac yn hapus i gefnogi'r unigolion sy'n newydd i'r lleoliad setlo'n gyfforddus. Er enghraifft, bydd grwpiau o blant yn gwahodd eraill i ymuno â'r gêm fwrdd tra bydd eraill yn gwneud lle ar y soffa i unrhyw blentyn a all fod angen cwmni arno. Mae natur ofalgar y plant tuag at ei gilydd yn gryfder mawr i'r lleoliad.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae. Maent yn dangos diddordeb brwd ac yn ymgysylltu'n dda â'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd ac yn archwilio amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Er enghraifft, roeddent yn dangos cyffro wrth iddynt archwilio gwahanol ffyrdd o ddod i lawr y llithren. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod sylweddol o amser ac yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth gan y staff. Er enghraifft, bu'r plant yn chwarae yn y gornel adeiladu am bron i awr, gan ganmol ei gilydd wrth iddynt adeiladu twr o amgylch y castell.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig. Maent yn cyrraedd yn y bore ac yn gallu hongian eu heiddo eu hunain, a dilyn arfer cyfarwydd. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn hwylus ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Mae'r disgwyliadau yn addas i'w hoedran, er enghraifft, mae’r plant hŷn yn helpu i wneud tost tra bydd y plant iau yn rhoi menyn ar eu bara eu hunain.

## Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod i'r arweinwyr dynodedig am bryderon. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol o'u dyletswydd unigol i roi gwybod i dîm diogelu'r awdurdod lleol am bryderon os bydd angen. Mae'r staff yn cymryd rhan mewn sesiynau cwestiwn ac ateb yn rheolaidd er mwyn adfywio eu dealltwriaeth o ddiogelwch. Maent yn cadw cofnodion priodol yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan y rhieni. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid bwyd da yn gyson ac mae'r staff sy'n paratoi byrbrydau yn y lleoliad wedi cwblhau hyfforddiant addas ar hylendid bwyd. Maent yn defnyddio archwiliad rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi meysydd i'w gwella ac i lywio eu rhestrau gwirio dyddiol. Maent yn hyderus eu bod yn rhan o dîm sy'n cydweithredu'n ofalus i sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn flaenoriaeth. Mae gweithdrefnau ac arferion glanhau a hylendid cadarn ar waith, lle mae pawb yn cymryd cyfrifoldeb ac yn ymwybodol iawn o'r rotas, ond hefyd yn nodi ac yn cwblhau tasgau fel a phan fo'n ofynnol. Mae nifer digonol o staff sy'n meddu ar dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig ac maent yn gwirio cynnwys y pecyn cymorth cyntaf yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon yn ei stoc.

Mae'r staff yn cyfathrebu'n dda iawn â'r plant ac yn creu awyrgylch prysur ond digyffro ac ymlaciol. Maent yn fodelau rôl rhagorol i'r plant ac yn rhyngweithio'n gynnes a phwrpasol â nhw drwy gydol y dydd. Er enghraifft, maent yn chwarae gemau yn yr awyr agored gyda'r plant, gan fodelu ymddygiad cadarnhaol ac egluro'r cyfarwyddiadau a nod y gêm yn amyneddgar heb gymryd drosodd neu arwain y gweithgaredd. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd sy'n garedig a chyson. Maent yn ofalgar ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant, gan rannu dull cadarnhaol o reoli ymddygiad y plant. Mae'r staff yn symud o amgylch yr amgylchedd yn barhaus a bob amser yn agos i gefnogi'r plant a chynnig cysur. Mae eu rhyngweithio â'i gilydd a gyda'r plant yn barchus ac mae'r plant yn hapus ac yn fodlon. Gwnaethom glywed y staff yn diolch i'w gilydd ac yn siarad â'i gilydd yn garedig, a'r oedd yn aml yn cael ei glywed gan y plant. Cafodd technegau tynnu sylw eu defnyddio'n hyderus gan y staff pan yn ofynnol, ac roeddent bob amser yn dod o hyd i weithgareddau gwahanol pan na fyddai'r gweithgareddau'n addas. Er enghraifft, roedd y plant eisiau arbrofi gyda rholio peli i lawr y ramp, ac yn hytrach ~~nag atal~~ chwilfrydedd y plant, ceisiodd y staff gynnig gweithgareddau gwahanol a fyddai'n fwy diogel iddynt gyda'r peli dan do.

Mae gan y staff wybodaeth dda am ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae ac maent yn meddu ar y cymwysterau gofal plant perthnasol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas er mwyn meithrin amrywiaeth o sgiliau ac maent yn rhoi cymorth da i'r plant wrth iddynt chwarae. Mae rhai o'r plant yn y lleoliad yn mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau i sgwrsio yn y Gymraeg pan fyddant yn gallu. Mae'r staff hefyd wedi dechrau cyfieithu gohebiaeth a gwybodaeth ar gais. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni diddordebau'r plant ac i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd glân, croesawgar, cynnes a diogel. Mae'r safle yn cynnig lefel ragorol o ddiogelwch ac mae'r lleoliad bob amser ar glo. Mae hyn yn rhoi'r rhyddid i'r plant symud yn annibynnol o amgylch yr ardaloedd a'r adrannau dan do, ac i fynd i'r ardaloedd awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn ddyddiol ac yn cadw asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu pryd bynnag y bydd unrhyw fesurau ychwanegol yn cael eu nodi. Maent hefyd yn cadw asesiadau risg tân effeithiol, a chaiff y rhain eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau gwagio'r adeilad effeithiol ar waith. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Caiff ymarferion tân a chofnodion damweiniau eu gwerthuso a'u hadolygu, ac o ganlyniad, mae'r broses o ddiweddaru'r asesiadau risg yn un barhaus. Fodd bynnag, nid oedd y tystysgrifau diogelwch ar gael yn hawdd ar ddiwrnod yr arolygiad ac mae angen gwella'r prosesau ar gyfer monitro camau gweithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Maent yn darparu ardaloedd chwarae rhagorol i'r plant gymdeithasu â'i gilydd, a chânt ryddid i symud o gwmpas yn annibynnol ac yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn paratoi'r ardaloedd chwarae yn ofalus er mwyn galluogi'r plant i gael y profiadau gorau posibl. Er enghraifft, mae wal ddringo a llithren i'w cael dan do, yn ogystal ag ardal chwarae rôl, cornel adeiladu, ardal grefft a chwarae blêr ac ardal dawel ar gyfer darllen a chwarae gemau bwrdd. Yn yr ardal awyr agored, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i ddarparu man diogel sy'n cynnig llawer o ardaloedd a chyfleoedd ysgogol. Er enghraifft, mae arwyneb caled ar gyfer chware pêl-droed, cae mawr lle mae'r plant yn rhydd i redeg ynddo, cysgodfa bren lle gall y plant ddarllen ac ymlacio ar welyau crog a chlustogau, ardal ysgol goedwig a gardd llawn llysiau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig lle i'r plant gyrraedd a hongian eu heiddo, yn ogystal â chyntedd ar wahân i'r rhieni i rannu negeseuon. Mae toiledau ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer pob oedran ac maent yn y broses o ymdrin â'r arogl yn y coridor y tu allan i'r ardal doiledau glân. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r ysgol ac wrthi'n edrych ar wneud cais am ardal a fydd yn cryfhau'r ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored. Mae llawer o'r adnoddau yn hygyrch, a gall y plant gael gafael ar y rhan fwyaf o'r eitemau cyfarpar sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfarpar ac adnoddau sy’n briodol ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant. Darperir adnoddau a dodrefn bywyd go iawn i'r plant allu creu ymdeimlad o gartref oddi cartref, ac i annog chwilfrydedd ac i ddatblygu dychymyg y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn rhannu hyn, ynghyd ag unrhyw lwyddiannau, gyda'r tîm o staff, y rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu polisïau a datganiad o ddiben clir sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Maent yn wybodus mewn perthynas â'u cyfrifoldebau rheoliadol ac yn drefnus iawn wrth adolygu polisïau a gwirio bod y staff yn deall dyletswydd eu gofal yn llawn. Mae ganddynt bolisi cwynion a gweithdrefnau cwyno ar waith, ond nid oes unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n gyfrinachol a bod adolygiadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod ffeiliau'r staff a'r cofrestrau yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cynnwys contractau a chaniatadau gan y rhieni yn ogystal â gwybodaeth berthnasol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflwyno adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal, sy'n dangos tystiolaeth o sut maent yn ymateb i adborth. Mae ganddynt drefniadau effeithiol ar waith i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r arweinwyr a'r staff yn ymrwymedig i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau i'r plant Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dosbarthu holiaduron ac yn gwrando ar farnau a safbwyntiau'r rheini sy'n defnyddio ac yn gweithio yn y lleoliad. O ganlyniad, maent yn gweithio'n barhaus i ddatblygu eu gwasanaeth o ofal.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu tîm o staff sy'n cydweithio'n agos ac yn effeithiol. Dywedodd y staff fod y lleoliad yn lle hapus iawn i weithio ynddo a'u bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda gan y tîm rheoli, sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn hyderus. Disgrifiodd y staff eu harweinwyr fel rhai sy'n hawdd mynd atynt, sy'n gefnogol a charedig, a cheir tystiolaeth bellach o hyn mewn adborth ysgrifenedig a gafodd ei rannu yn ystod eu dathliad gwobro staff blynyddol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gofalu am eu staff ac yn llwyr werthfawrogi eu holl waith caled. Maent yn sicrhau bod tystysgrifau gorfodol y staff yn gyfredol ac y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu'n rheolaidd fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Maent yn sicrhau bod y systemau ar gyfer arfarnu a goruchwylio yn annog y staff i fyfyrio, sy'n eu galluogi i osod nodau personol yn effeithiol ac i barhau i ddatblygu fel unigolyn a gweithiwr proffesiynol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau ardderchog. Maent yn sicrhau bod y systemau ar gyfer cyfathrebu â'r rhieni yn gynhwysol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gofalwyr yn gadarn. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad ac mae ganddynt feddwl uchel o'r staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu, a rhannodd eraill eu gwerthfawrogiad dros neges e-bost yn barod ar gyfer y gwobrau staff. Mae'r negeseuon diolch a'r ganmoliaeth yn dystiolaeth wirioneddol o waith caled ac ymrwymiad yr holl staff

sy'n gweithio yn y lleoliad. Mae sefydliadau mantell hefyd wedi nodi'r lleoliad fel un llwyddiannus drwy gyflwyno enwebiad am brentis y flwyddyn, a'u hannog i rannu eu harfer da gydag eraill.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 - Diogelwch | Adolygu'r prosesau ar gyfer monitro tystysgrifau diogelwch. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/09/2024